# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

**AC-09-02(cof)**

## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 19 Rhagfyr 2002 | |
| **Amser:** | 9.15 am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd | |
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | **Etholaeth** |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Tystion** | |
| | Syr Jon Shortridge | Yr Ysgrifennydd Parhaol |
| | David Richards | Prif Swyddog Cyllid |
| | Richard Wilson | Prif Syrfëwr Ystadau |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |

| | |
|---|---|
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfio y Cynulliad |
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**9.15 – 9.20am**

**Eitem 1**
**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Yr oedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Ann Jones AC.
2. Gwnaeth y Cadeirydd ddau ddatganiad o fuddiant mewn perthynas ag Eitem 2 ar yr agenda gan fod ei wraig yn aelod o bwyllgor Callaghan a fu'n gyfrifol am feirniadu'r gystadleuaeth ddylunio ar gyfer yr adeilad newydd ac roedd yntau yn aelod o'r pwyllgor llywio ar gyfer yr adeilad newydd. Nodwyd y datganiadau gan aelodau'r pwyllgor ac roeddynt yn fodlon i'r Cadeirydd barhau.

**9.20 – 11.05am**

**Eitem 2**
**Sesiwn clywed tystiolaeth - Adeilad Newydd y Cynulliad Cenedlaethol: Y Sefyllfa Ddiweddaraf'**

1. Gwrandawodd y pwyllgor ar dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Syr Jon Shortridge, a swyddogion eraill mewn perthynas â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ''Adeilad Newydd y Cynulliad: Y Sefyllfa Ddiweddaraf'.
2. Nododd y Cadeirydd bod y pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn ymdrin â'r ffordd y cafodd y prosiect ei drin yn y gorffennol, ac y dylai'r holl aelodau, wrth holi'r tystion, fod yn ofalus iawn rhag iddynt ragfarnu unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch yr adeilad newydd, na dylanwadu mewn unrhyw ffordd ar y broses dendro bresennol ar gyfer y contract i orffen y dylunio a'r adeiladu. Nodwyd hefyd bod yr adroddiad yn ei gwneud yn glir ei bod yn bosibl y gallai camau cyfreithiol pellach gael eu cymryd.
3. Ceir trawsgrifiad gair-am-air o'r eitem hon yn Atodiad A y cofnodion.

**Pwyntiau Gweithredu**

Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cael nodyn oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol yn cadarnhau'r pwyntiau canlynol:-

- A oes gan y Cynulliad unrhyw gontractau eraill gyda'r sector preifat, er enghraifft ar gyfer cynllluniau ffyrdd, sy'n cynnwys amodau ar gyfer talu ffioedd sy'n debyg i'r rhai yng nghontract gwreiddiol yr adeilad newydd.
- Y rheswm dros hawlio £2 filiwn o golledion ar gyfer ffioedd dylunio'r adeilad, pan fo'r dyluniadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i godi'r adeilad newydd.
- Sut mae costau dylunio a ffioedd Partneriaeth Richard Rogers yn cymharu gyda'r cwmnïau eraill a roddodd gynnig arni yn y gystadleuaeth ddylunio.
- A oedd angen i'r Cynulliad fynd trwy'r broses ddyfarnu cyn mynd â'r achos i'r llysoedd.

**11.05 – 11.15am**

**Eitem 3**
**Papurau i'w nodi**

**AC 09-02(p2) -** Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.

**AC 09-02(p3)-** Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.

1. Croesawodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) y ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn holl argymhellion y pwyllgor, a nododd y byddai'n cadw llygad ar hynt y gweithredu.
2. Nododd y pwyllgor fod asedau Canolfan y Celfyddydau Gweledol wedi cynnwys desg a oedd yn werth rhai miloedd o bunnau. Cytunodd ACC i holi Cyngor Dinas Caerdydd, sydd erbyn hyn yn berchen ar yr eiddo a'r dodrefn, a rhoi gwybod i'r pwyllgor ym mhle y mae'r ddesg.

   **AC 09-02(p4) -** Y manylion diweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas ag arlwyo mewn ysbytai.

3. Rhoddodd ACC wybodaeth i'r pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn Archwilio ar y safonau arlwyo mewn ysbytai, a'r targedau penodol a osodwyd yn sgil hynny.
4. Mynegodd y pwyllgor bryder am y bwyd sy'n cael ei ddarparu mewn ysbytai a pha mor addas ydoedd, ynghyd â'r modd y caiff staff sy'n trin bwyd mewn ysbytai eu rheoli a'u hyfforddi.
5. Nodwyd bod angen symud ymlaen yn gynt i wella arlwyo mewn ysbytai. Dywedodd ACC

wrth y pwyllgor ei fod yn bwriadu gwneud rhagor o waith, gan gynnwys cynnal arolwg o farn y cleifion.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Byddai ACC yn monitro i ba raddau y cyrhaeddwyd y targedau ar gyfer arlwyo mewn ysbytai ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.
- Byddai ACC yn cynnal astudiaeth o arlwyo mewn ysbytai yn 2004/5, gan gynnwys cynnal arolwg ymhlith cleifion, a hysbysu'r pwyllgor am y canlyniadau.

**AC 09-02(p5) -** Y manylion diweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar arbedion yn sgil mynd i'r afael â thwyll presgripsiynau.

1. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn adroddiad y pwyllgor y gellid arbed tua £15 miliwn wrth fynd i'r afael â thwyll presgripsiynau. Dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod eisoes wedi llwyddo i arbed tua £7 miliwn. Nododd ACC ei bod yn annhebygol y gellid arbed yr £8 miliwn sy'n weddill, ond y dylid gwneud mwy o waith i weld pa mor agos y gallai'r GIG gyrraedd y ffigur hwnnw.
2. Nodwyd hefyd bod y ffigur gwreiddiol o ran yr hyn y gellid ei arbed wrth fynd i'r afael â thwyll presgripsiynau wedi bod rhwng £15-30 miliwn, ei fod yn faes pwysig lle gellid arbed llawer o arian, a bod hyfforddi fferyllwyr yn faes i ganolbwyntio arno er mwyn osgoi rhagor o golledion yn y dyfodol.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Byddai'r pwyllgor yn gwahodd Cyfarwyddwr GIG Cymru i gyfarfod yn 2003, pan fyddai ACC yn gwneud adroddiad arall ar y mater.

**AC 09-02(p6) -** Rhaglen ddiwygiedig Archwilydd Cyffredinol Cymru am Werth am Arian

8. Cyflwynodd ACC ei Raglen ddiwygiedig am Werth am Arian i'r pwyllgor.
9. Roedd trais yn y GIG wedi cael ei gynnwys yn y meysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn 2003-2004 ar gais y pwyllgor, ac roedd yr astudiaeth o brosiect TG Jigsaw oedd ar y gweill wedi cael ei gohirio o'r herwydd. Byddai astudiaeth o ddeintyddiaeth yng Nghymru hefyd yn cael ei hystyried ar ôl 2004.
10. Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys eitemau tymhorol megis diogelu rhag llifogydd a rheoli salwch staff, a allai fod o fudd o ran arbed arian.

**<u>11.15am</u>**

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**<u>11.15-11.20am</u>**

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall**

1. Roedd llythyr yn dadansoddi rhywfaint o'r costau a ragwelir wrth ailstrwythuro'r GIG wedi cael ei roi gan ACC i Gyfarwyddwr GIG Cymru ar 6 Rhagfyr, mewn ymateb i gais oddi wrth Gyfarwyddwr GIG Cymru. Roedd cynnwys y llythyr, a'r ateb oddi wrth Gyfarwyddwr GIG Cymru, wedi cael ei drafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn y cyfarfod llawn ar 18 Rhagfyr.

**Pwynt Gweithredu**

- Byddai ACC yn rhoi nodyn ar y materion yn ei lythyr a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Archwilio, i'w hystyried mewn cyfarfod yn ystod Tymor y Gwanwyn.

1. Pan fyddai'r pwyllgor yn ystyried adroddiad Bae Caerdydd eto gofynnwyd iddo dalu sylw i'r argymhellion yn ei adroddiad blaenorol nad oedd y Cabinet wedi eu derbyn yn ei ymateb.

**Pwynt Gweithredu**

- Byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael manylion am y pryderon a oedd yn ymwneud ag ymateb y Cabinet, a byddent yn cael eu hystyried pan fyddai adroddiad drafft Bae Caerdydd yn cael ei ddwyn ger bron y Pwyllgor yn ystod Tymor y Gwanwyn.

1. Diolchodd y Cadeirydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i dîm am eu gwaith.
2. Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor yn cael ei gynnal ar 23 Ionawr 2003 am 14.00pm.
3. Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.